
Teithiau teulu gyda gwahaniaeth...

Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path

@walescoastpath
walescoastpath.gov.uk




# Borth y Gest, Penrhyn Llŷn

*"Cewch fwynhau golygfeydd anhygoel, traethau prydferth a bywyd gwyllt amrywiol ar y daith gerdded hon. Cyn datblygiad Porthmadog, Borth y Gest oedd man croesi moryd llydan a pheryglus y Glaslyn, ac 'roedd pobl leol yn ennill arian drwy arwain teithwyr ar draws tywod twyllodrus Traeth Mawr i Harlech. Edrychwch yn ofalus i'r môr; efallai y gwelwch chi grwban y môr cefn-lledr!"*

**RHYS GWYN ROBERTS, SWYDDOG LLWYBR ARFORDIR CYMRU**

## Dechrau/Diwedd:

Maes parcio Borth y Gest i Ynys Cyngar

## Pellter:

2 km / 1 filltir (o'r maes parcio i Ynys Cyngar)
Taith gerdded estynedig: o Ynys Gyngar i Traeth y Graig Ddu yn Morfa Bychan - 3km / 2 filltir

## Gwybodaeth:

O'r maes parcio, dilynwch arwyddion Llwybr Arfordir Cymru tua'r gorllewin heibio tai teras. Mwynhewch olygfeydd helaeth godidog o Afon Glaslyn, un o brif afonydd yr ardal. Mae panel y profiad Realiti Estynedig ar yr ardal welltog. Defnyddiwch ap Llwybr Arfordir Cymru ar eich dyfais symudol (ffôn clyfar neu dabled) i gwrdd â'r crwban môr cefn-lledr ac archwilio hanes cyfareddol Porthmadog. Ewch ymlaen ar y llwybr tan i chi gyrraedd Ynys Cyngar, pentir bach oedd arfer bod yn ynys lanwol. Gallwch ddychwelyd ar yr un llwybr neu os hoffech archwilio mwy, gallwch fentro ychydig ymhellach i Draeth Morfa Bychan – un o'r ardaloedd mwyaf o dywod yng Ngogledd Cymru. Cofiwch fynd â bwced a rhaw!

## Ar y ffordd...

Mae'r daith gerdded yn addas ar gyfer teuluoedd; mae rhan gyntaf y daith hyd at y panel realiti estynedig yn addas ar gyfer pramiau.

## Cynlluniwch eich ymweliad:

**TRAETH MORFA BYCHAN:** visitsnowdonia.info
**TRAFNIDIAETH GYHOEDDUS:** traveline.cymru
**GWEFAN DWIRISTIAETH:** visitsnowdonia.info/black-rock-sands

## Cyn gadael:

Lawrlwythwch ap Llwybr Arfordir Cymru er mwyn profi'r ardal mewn Realiti Estynedig.

ANDROID APP ON Google play
Download on the App Store

